**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6**

Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Enw'r Cyngor Tref neu Gymuned: **Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**

## Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn darparu amrediad o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am dorri tyfiant nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys Llwybrau Cyhoeddus.

- Cyllid – rydym yn rhoi grantiau ar gyfer prosiectau yn ardal y Cyngor. Mae hyn yn cael effaith ar fioamrywiaeth drwy raeadru meini prawf cyllid.

Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyedd a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Rydym yn gwasanaethu plwyf Llanddeiniolen. Y praesept ar gyfer 2025-2026 yw £31000.00

## Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu :

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth yn ein prosesau penderfynu a chaffael | - Wedi adlewyrchu'r ymrwymiad i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol yn Cyfarfod Rhagfyr 2019 | Ymrwymiadau a Waned yn dilyn derbyn dogfennau dyletswydd adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru)2016 |
| | - Wedi rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill, megis gorchmynion dargyfeirio troetffordd a materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau yn yr ardal. Datblygu ymatebion addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd | Wedi dangos yr ystyriwyd bioamrywiaeth wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. |

ADOLYGWYD YN NGHYFARFOD 02/06/2026

| | | |
|---|---|---|
| diogelu'r prif rywogaethau a chynefinoedd | Wedi cyfrannu at y gwaith o reoli safleoedd gwarchodedig, gan gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol/Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur | Gofalu ein bod yn gwarchod natur wrth dorri tyfiant yn flynyddol |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: er enghraifft, defnyddio atebion sy’n seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Polisi caffael cynaliadwy sy'n cynnwys sicrhau bod nwyddau swyddfa fel papur, cynhyrchion glanhau a dodrefn swyddfa’n dod o ffynonellau cyfrifol (e.e. yn lleol a/neu ddeunyddiau sydd wedi cael eu hailgylchu) | Wedi trin ardaloedd lle mae rhywogaethau goresgynnol<br>Faint o blaladdwr a ddefnyddiwyd |

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

Beth sydd wedi gweithio'n dda?
Megis dechrau a monitor gan adeiladu ar bob cyfle da ni yn gallu.

Beth fu'r rhwystrau?
Nodi newidiadau sydd eu hangen neu'r arferion gorau.

Beth byddwch yn ei newid?
Ceisio I wella bywyd gwyllt yn yr ardal..

Sut a phryd bydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 yn cael adolygu?

Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro drwy Bwyllgor yr Amgylchedd,Cynaliadwyedd a Chynllunio, a thrwy swyddogion unigol yn adrodd yn ôl i'r cyngor ynghylch llwyddiant y camau a gymerwyd, neu fel arall, drwy'r archwiliadau wythnosol, misol a blynyddol arferol.
Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiadau hyn ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i'r Cyngor. Bwriedir adolygu’r cynllun ac ychwanegu ato fel mae’r Cyngor yn gweld newid.

2024-2025
O fewn yr ardal a’r pentrefi, mae Cynllun Natur Llanddeiniolen wedi datblygu, lle mae sawl mudiadau o fewn y pentrefi yn cydweithio gyda’r Cyngor a’r ysgolion er mwyn datblygu ardaloedd natur. Mae’r grwpiau yn cael eu harwain gan Angharad Owen, sydd yn gweithio gyda ni i geisio a derbyn grantiau. Mae Neuadd Rhiwlas wedi derbyn grant i gael paneli solar a bateri hefyd. Mae’r Cyngor yn dal i ymdrechu i ymestyn i ddod o hyd i fannau gwyrdd i’w datblygu.
Un bwriad sydd gennym eleni yw cyd weithio gyda Adra ar ddatblygiad Stad Newydd ym Methel, lle mae yna lecyn gweddol fawr ar y stad, i gael ei ddatblygu o’r cychwyn.

2025-2026
Bu ir Cyngor od yn llwyddianus yn derbyn grantiau eleni ar gyfer potiau blodau i bo pentref o fewn y plwyf. Y bnwriad ydi plannu blodau ar gyfer yr haf, yna bydd plant yr ysgolion cynradd a neu clybiau Ieuenctid yn cyd weithio gyda’r Cyngor er mwyn edrych ar ôl y blodau a’r tyfiant i harddu y pentrefi ac fel ein rhan gyda bioamrywiaeth yr ardal.
Eleni bu I’r Cyngor yn sgil derbyn swm o ystad y diweddar Mr Ken Harris, gydweithio gyda’r 4 ysgol gynradd ar brosiect oedd yr Ysgol a’r plant yn gweithio arno, gyda pob un ysgol wedi derbyn £5 mil ar gyfer y prosiect unigol a oedd wedi ei gynlluniuo trwy grwp ffocws o fewn y Cyngor Cymuned.

ADOLYGWYD YN NGHYFARFOD 02/06/2026

Mae’r Prosiect yma yn agosau at ei ddiwedd, ac mae’r ysgolion angen rhoi cyflwyniad a dogfennau costau ac ati i’r Cyngor. Yna yn ystod y flwyddyn, bydd y 4 ysgol yn cydweithio ar prosiect ar y cyd, gyda’r £20 mil sydd yn weddill. Y bwriad yn hwnnw oedd, gweithio ar daith hanes enwogion ac adeiadau o bwys yn y plwyf, gydacael placiau côd yn adrodd hanes pwysig, fydd yn dilyn at lwybrau llesiant.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf mae sawl grwp o fewn y pentrefi yn cydweithio, medis hel sbwriel, cefnogi’r Cyngor i adnabod llefydd a all fod yn le I wella bioamrywiaeth. Mae 1 pentref wedi derbyn frant I brynnu hen adeilad I’w drosi yn ganolfan gymunedol. Bwriad Pwyllgor Pentra Deiniolen ydi troi yr Hen Lyfrgell yn ganolfan Cymunedol, ynghyd a gwella ansawdd y Clwb Snwcer sydd yn yr adeilad sydd yn damp a heb gael ei uwchraddio ers blynyddoedd. Y gobaith yma hefyd ydi edrych ar gynnal yr adeilad gyda ynni adnewyddadwy (solar ac inswleiddio).